



Cymdeithas Eisteddfodau Cymru

# ADRODDIAD BLYNYDDOL 2021



[www.steddfota.org](http://www.steddfota.org)

CYMRAG



Ariennir gan  
Lywodraeth Cymru  
Funded by  
Welsh Government

## CYFLWYNIAD Y CADEIRYDD

Blwyddyn arall wedi mynd heibio yn hanes y Gymdeithas, blwyddyn sydd wedi bod yn eitha' gwahanol ar y cyfan! Ers canol mis Mawrth llynedd does yr un eisteddfod wedi cael ei chynnal, heblaw am rhai Eisteddfodau rhithiol.

Yn gynharach yn y flwyddyn, daeth y newyddion trist am farwolaeth y Dr Aled Lloyd Davies, un o sylfaenwyr y Gymdeithas a gŵr a wnaeth cymaint o gymwynasau yn dawel bach er lles diwylliant Cymru. Cofiw'n hefyd am Gron Ellis, sef cyn Ysgrifennydd y Gymdeithas sydd ddim wedi bod yn dda iawn ei iechyd yn ddiweddar.

Penderfynodd Shân, ein cyn-Swyddog Datblygu ymddeol ar ddechrau'r flwyddyn. Roedd hi wedi gwneud gwaith arbennig tra yn y swydd, i godi proffil y Gymdeithas ac fe lwyddodd i wneud hynny yn sicr. Diolch Shân am dy ymroddiad i'r swydd ac i'r Gymdeithas ar hyd y blynyddoedd.

Daeth tro ar fyd ym mis Ebrill, pan ddechreuodd Aled Wyn Phillips fel ein Swyddog Datblygu, a braf yw gweld ei syniadau ffres yn dwyn ffrwyth yn barod. Rydym yn falch gweld bod Lois ac ef yn cydweithio mor dda gyda'i gilydd, ac yr ydym ni fel swyddogion gant y cant tu ôl iddynt ym mhob dim y maent yn ei wneud er lles y Gymdeithas.

Cafwyd eitemau ar newyddion radio a theledu, rhaglen Shân Cothi ar Radio Cymru a gwefannau Golwg360 a BBC Cymru Fyw, heb sôn am yr holl sylw ar y cyfryngau cymdeithasol. Taenu ychydig o lawenydd yn y cyfnod rhyfedd hwn oedd y nod, ac rwyf yn siŵr eu bod nhw wedi llwyddo. Y gobaith yw y bydd yr holl sylw yma'n hwb i'r eisteddfodau pan fydd pethau'n dychwelyd i'r drefn arferol y flwyddyn nesa' gobeithio.

Rydym wedi gweld cynnydd eto yn y bobl sy'n defnyddio ein tudalen "Facebook" a "Twitter" - dau gyfrwng sydd yn ychwanegu at y modd yr ydym yn medru hysbysebu negeseuon a chysylltu gydag eraill yn rhwydd ac am ddim. Erbyn hyn mae gan y Gymdeithas sianel YouTube hefyd. Mae'n bwysig ein bod ni'n defnyddio'r cyfryngau hyn er mwyn ehangu'r neges am waith y Gymdeithas. Hefyd mae mwy o bobl wedi cofrestru i dderbyn 'Steddfota, sef newyddlen y Gymdeithas, yn ystod y flwyddyn, a hynny drwy'r post a thrwy e-bost. Hyn eto yn brawf bod y diddordeb mewn digwyddiadau eisteddfodol ar i fyny. Mae ein gwefan wedi bod o ddefnydd yn ystod y cyfnod anodd hwn hefyd, gyda'r wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â sefyllfa'r eisteddfodau yn cael ei nodi a'i ddiweddarau er budd y defnyddwyr. Gobeithio'n wir y bydd yr holl gyfyngiadau wedi cael eu codi yn fuan a bydd eisteddfodau yn dechrau cael eu trefnu eto, gan fod cynnal eisteddfodau lleol yn bwysig er mwyn bwydo'r ddwy Eisteddfod Genedlaethol. Heb y rhai lleol ni fyddai modd cynnal y ddwy fawr. Felly cofiwch gefnogi yn lleol yn gyntaf ac wedyn yn genedlaethol. Mae angen yr Eisteddfodau lleol hyn ar Gymru benbaladr i gadw'r traddodiad yn fyw.

Wrth derfynu rwyf am dalu teyrnged enfawr i'm cyd-swyddogion, i aelodau'r Pwyllgor ac i Lois ac Aled yn bennaf, am eu gwaith diflino er budd y Gymdeithas, ac wrth gwrs er lles ein heisteddfodau ym mhob cwr o Gymru.

Megan

# CYFARFOD BLYNYDDOL

## CYMDEITHAS EISTEDDFODAU CYMRU

### 2 AWST 2021 (ar ZOOM)

#### AGENDA

1. Croeso gan y Cadeirydd – Megan Jones Roberts
2. Ymddiheuriadau
3. Cofnodion y cyfarfod diwethaf - Awst 2020
4. Unrhyw faterion yn codi
5. Sylwadau byr gan y Cadeirydd am ddatblygiadau'r flwyddyn
6. Cyflwyniad Pwerbwynt gan y Swyddog Datblygu a'r Swyddog Technegol ar weithgareddau a datblygiadau'r flwyddyn
7. Derbyn yr adroddiad ariannol
8. Ethol Swyddogion
  - Cadeirydd
  - Is-gadeirydd
  - Trysorydd
  - Ysgrifennydd
9. Unrhyw fater arall

## COFNODION CYFARFOD BLYNYDDOL

### CYMDEITHAS EISTEDDFODAU CYMRU: 4 AWST 2020

**Yn bresennol:** Megan Jones Roberts (Cadeirydd), Bill Davies (Is-gadeirydd), Gwyn Parry Williams (Ysgrifennydd), Gareth Jones (Trysorydd), Shân Crofft (Swyddog Datblygu), Lois Williams (Swyddog Technegol) ynghyd ag oddeutu 32 o gynrychiolwyr o wahanol eisteddfodau.

**Ymddiheuriadau:** Cynrychiolwyr o eisteddfodau Llanfachreth, Rhydaman, Cwmystwyth, Llandudoch, Uwchmynydd, Pontargoithi, Pumsaint a Melin y Coed.

**Croeso:** Estynnodd y Cadeirydd groeso i bawb i'r cyfarfod.

#### Llongyfarchodd –

- Arfon Hughes, Dinas Mawddwy, Geraint Roberts, Caerfyrddin a Cyril Evans, Tregaron a dderbynnir i'r Orsedd yn Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion.
- Terwyn Tomos ar ennill y Stôl Farddoniaeth yn yr Eisteddfod AmGen.
- Huw Ceiriog ar gyhoeddi llyfr am Eisteddfod Taleithiol Powys.

#### 1. Cofnodion

Cyflwynwyd a chadarnhawyd cofnodion o'r Cyfarfod Blynyddol a gynhaliwyd ar 7 Awst 2019.

#### 2. Adroddiad y Cadeirydd ar ddatblygiadau'r flwyddyn

Cyfeiriodd y Cadeirydd at y materion canlynol:

- Yn anffodus oherwydd y Covid 19 ni chynhaliwyd 'run eisteddfod ers canol mis Mawrth. Fel arfer ar y dydd Mercher ar ôl y Pasg, cynhelir Eisteddfod Capel y Groes, Llanwnnen, ond eleni oherwydd y firws, fe arbrofwyd drwy ei chynnal ar-lein ac 'roedd yn llwyddiannus.
- Cynhelir eisteddfod newydd yn y Rhondda yn ystod y mis hwn, a hynny ar-lein. Deallir bod bwriad i sefydlu sawl eisteddfod arall yn ogystal ac 'roedd hynny'n newyddion calonogol.
- Cynhaliwyd eisteddfod newydd yng Nghaerdydd yn ystod mis Ionawr eleni ac 'roedd yn lwyddiant mawr. Cynhelir yr eisteddfod nesaf ar 23 Ionawr 2021 ac efallai y bydd yn eisteddfod rithiol. Nodwyd y disgwylir y cyhoeddir y testunau llên yn ystod yr wythnosau nesaf.
- Diolchodd i Gwmni Teithio Elfyn Thomas am gytuno i noddî'r raffl unwaith yn rhagor.
- Mewn perthynas â'r cyfryngau cymdeithasol nododd bod 58,628 wedi ymweld â wefan y Gymdeithas rhwng 24 Gorffennaf 2019 a 3 Awst 2020; 2,177 yn dilyn tudalen y Gymdeithas ar y Gweplyfr a 786 o ddilynwyr ar Twitter. 'Roedd cynnydd unwaith eto yn nifer y dilynwyr ar y cyfryngau cymdeithasol mewn blwyddyn, ond gwelwyd lleihad yn y nifer o dudalennau agorwyd ar y wefan – hyn yn bennaf o ganlyniad i effaith y firws a chanslo/gohirio'r holl ei steddffodau ers canol mis Mawrth.
- Cyhoeddir rhifyn dwbl o Steddfota yn ystod yr wythnos hon.
- Canslwyd yr Ŵyl Gerdd Dant ac Eisteddfod Cymru Ffermyr Ifanc yn Nhachwedd oherwydd Covid 19.

- Gan na chynhaliwyd y gweithgareddau arferol eleni, ac er mwyn cadw'r swyddogion cyflogedig yn eu gwaith, penderfynwyd gosod amryw o gystadlaethau, a'u rhannu ar-lein sef cystadleuaeth lenyddol, cystadleuaeth lenyddol i ddysgwyr a chystadleuaeth ffotograffiaeth, gyda dau gategori oedran ym mhob cystadleuaeth. Cafwyd ymateb rhagorol i'r cystadlaethau hyn ac yn ôl y beirniaid 'roedd y safon i'r gystadleuaeth lenyddol yn uchel. Gwobrwywyd yr enillwyr yn y gystadleuaeth hon â chadeiriau.
- Bwriedir cynnal cystadleuaeth cyfansoddi tŷn ar eiriau penodol, a chytunodd Robat Arwyn i feirniadau'r gystadleuaeth.
- Cynhelir trafodaethau gyda Chymdeithas Ddawns Werin Cymru parthed cynnal cystadleuaeth cyfansoddi dawns werin.

Diolchodd i'r ddau swyddog am eu gwaith diflino er budd y Gymdeithas ac hefyd i'r ysgrifennydd, trysorydd a'r is-gadeirydd.

### 3. Adroddiad y Trysorydd

Cyflwynodd y Trysorydd fantolen a oedd yn dangos yr incwm a'r gwariant am y flwyddyn yn diweddu 31 Mai 2020.

Cytunodd y Cyfarfod Blynyddol i dderbyn y fantolen ariannol.

### 4. Ethol Swyddogion (Cymerwyd y gadair ar gyfer ethol Cadeirydd gan Ellis Wyn Roberts)

Ail-etholwyd y canlynol yn swyddogion am 2020/21 –

Cadeirydd – Megan Jones Roberts

Is-gadeirydd – Bill Davies

Trysorydd – Gareth Jones

Ysgrifennydd – Gwyn Parry Williams

Diolchwyd i Megan Jones Roberts am ei gwaith fel Cadeirydd y Gymdeithas.

# A D R O D D I A D      B L Y N Y D D O L      2 0 2 1

## INCWM A GWARIANT AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAI 2021

	2020	2021
	£	£
<b>INCWM</b>		
Llywodraeth Cymru	46,036	36,389
Grant arall	980	0
Nawdd a Rhoddion eraill	1,485	0
Tanysgrifiadau	1,583	1,413
Raffl y Gymdeithas	1,422	20
	<b>51,506</b>	<b>37,822</b>
<b>GWARIANT</b>		
Cyflogau Swyddogion Datblygu	29,170	25,869
Costau swyddfa Swyddogion Datblygu	4,988	4,400
Gweithgareddau a phrosiectau:		
Gweithgareddau eisteddfodau	3,029	505
Gweithgareddau yn yr eisteddfodau cenedlaethol	6,635	0
Argraffu a phrynu nwyddau ac offer eraill	2,585	3,174
Costau rheolaeth a gweinyddol	1,231	700
	<b>47,638</b>	<b>34,648</b>
<b>Gweddill am y flwyddyn</b>	<b>585</b>	<b>3,174</b>
<b>ASEDAU CYFREDOL</b>		
Dyledwyr	8,776	8,776
Arian yn y banc	4,443	4,556
	<b>13,219</b>	<b>13,332</b>
<b>Credydwyr</b>		
Credydwyr – dyledus o fewn blwyddyn	(4,221)	(1,160)
	<b>8,998</b>	<b>12,172</b>
<b>Cronfa wrth gefn</b>		
Ar ddechrau'r flwyddyn	5,130	8,998
Gweddill am y flwyddyn	3868	3,174
<b>Ar ddiwedd y flwyddyn</b>	<b>8,998</b>	<b>12,172</b>